

A photograph of two Black women cycling on a paved path. The woman on the left is wearing a tan hoodie and a black vest, while the woman on the right is wearing a blue hoodie and purple leggings. They are both smiling and looking at each other. The background features a green field and a blue wall with colorful graffiti. The text 'we are cycling UK' is in the top left, and 'Rhyddid i Symud: maniffesto dros seiclo' and 'Etholiad Cyffredinol 2024' are in blue and orange boxes respectively. The website 'cyclinguk.org' is in the bottom left.

we are  
**cycling**  
UK

**Rhyddid i Symud:  
maniffesto dros seiclo**

**Etholiad Cyffredinol 2024**

**cyclinguk.org**

Strydoedd mawr prysur y gallwch chi gerdded ar eu hyd yn anadlu awyr glân. Miliynau yn fwy o blant yn cerdded a seiclo i'r ysgol, am eu bod nhw a'u rhieni'n teimlo ei fod yn ddewis diogel. Cenedl iachach, gyda mwy o bobl yn cynnwys symud corfforol yn eu bywydau bob dydd.

Dyma ein gweledigaeth ni ar gyfer y DU, ond ni chaiff ei wireddu heb i'r llywodraeth nesaf alluogi mwy o bobl i gerdded, olwyno a seiclo. Mae'n un o'r ymyriadau iechyd rhataf a mwyaf effeithiol gall llywodraeth ei wneud – ac mae tystiolaeth glir yn dangos os yw cerdded a seiclo'n edrych ac yn teimlo fel y dewis naturiol ar gyfer teithiau byr, bydd miliynau mwy o bobl yn eu gwneud.<sup>1</sup>

Mae'r cynnydd mewn anweithgarwch corfforol ymysg plant yn cyfrannu at yr argyfyngau cenedlaethol o ran gordewdra ac iechyd meddwl. Ond trwy roi dewisiadau trafniadaeth iach a chynaliadwy i bobl, gall y llywodraeth nesaf arbed biliynau o bunnoedd i'r GIG. Byddai mwy o bobl yn byw bywydau iachach a hapusach, a byddai strydoedd a chymdogaethau'n cael eu trawsnewid yn lleoedd gall plant a phobl ifanc ffynnu ynddynt.

**“Byddai Prydain yn lle gwell  
petai mwy o bobl yn seiclo  
Mae 77% o bobl yn cytuno”**

Y ffordd gyflymaf a mwyaf cost-effeithiol i'r llywodraeth nesaf gyflawni hyn yw rhoi i bobl dewisiadau gwell o ran trafniadaeth er mwyn sicrhau:

- Ni fyddwn yn teimlo'r rheidrwydd i yrru ein plant i'r ysgol mewn car;
- Mae gennym opsiynau diogel, dibynadwy, rhad a chynaliadwy ar gyfer y teithiau sydd arnom angen eu gwneud;
- Mae teithiau llesol yn dod yn rhan arferol o'n bywydau bob dydd; a
- Mae gennym ffyrdd a chymunedau heb dagfeydd a llygredd.

Mae'r polisiâu sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau hyn yn gost-effeithiol, yn gyflym i'w gyflawni ac mae prawf eu bod yn gweithio. Maent yn mynd i'r afael â llawer o heriau a byddant yn helpu i'r llywodraeth nesaf gyflawni ystod eang o amcanion pwysig – gan gynnwys mynd i'r afael â newid hinsawdd, gwella iechyd cyhoeddus, rhoi hwb i'r economi a lliniaru effeithiau'r argyfwng costau byw ar filiynau o bobl.



## Ein gofynion i'r llywodraeth nesaf

### 1 Gweud buddsoddiad hirdymor mewn seiclo, cerdded ac olwyno

**Cynyddu buddsoddiad mewn teithio llesol i 10% fan lleiaf o'r holl gyllideb drafndiaeth ymhen pum mlynedd.** Mae ar awdurdodau lleol angen diogelwch cyllid hirdymor i fod â'r hyder i ddatblygu a chyflawni cynlluniau hirdymor ar gyfer rhwydweithiau teithio llesol. Mae hwn yn fwy na buddsoddiad mewn trafndiaeth – mae'n fuddsoddiad mewn iechyd cyhoeddus, pobl, lle, yr amgylchedd a'r dyfodol a hoffem i'n plant.

### 2 Cynnig dewisiadau trafndiaeth gwell er mwyn lleihau traffig

**Llunio strategaeth drafndiaeth integredig i roi mwy o ddewisiadau trafndiaeth i bobl, gyda thargedau i leihau traffig.** Bydd rhai pobl yn parhau i fod angen neu eisiau gyrru, ond rhaid i'r llywodraeth wneud mwy i'w wneud yn hawdd a phleserus i'r mwyafrif ohonom deithio drwy gerdded, olwyno neu seiclo, ac i drafndiaeth gyhoeddus a thrafndiaeth a rennir fod yn fwy hygyrch. Drwy gynnig gwell ddewisiadau trafndiaeth, gall y llywodraeth wneud ein teithiau bob dydd yn fuddiol i'n hiechyd, ein heconomi a'n hamgylchedd, a lleihau traffig yn unol â thargedau sero net.

### 3 Cyflenwi cartrefi a datblygiadau newydd sy'n wirioneddol gynaliadwy

**Gwella a buddsoddi yn y system gynllunio,** fel ei fod yn ofynnol adeiladu'r holl gartrefi newydd a datblygiadau eraill o amgylch gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus mynych, strydoedd diogel a rhwydweithiau cerdded a seiclo rhagorol. Dylai newidiadau i'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol alinio â chanllawiau trafndiaeth, er mwyn sicrhau bod ysgolion, siopau, cyfleusterau gofal iechyd a mannau gwyrdd agored o fewn taith gerdded fer i gartrefi pobl.

### 4 Gwneud ein strydoedd yn fwy diogel

**Cefnogi mesurau arafu traffig mewn ardaloedd adeiledig ac ar ffyrdd gwledig, er mwyn gwneud ein strydoedd a'n ffyrdd yn fwy diogel.** Yn rhy aml, caiff pobl eu rhwystro rhag cerdded neu seiclo gan nad yw'n ddiogel i wneud hynny, yn eu tyb nhw. Ond bydd mwy o bobl yn dewis teithio llesol os yw ein strydoedd yn teimlo'n fwy diogel ac yn fwy diogel mewn gwirionedd. Un o'r ffyrdd cyflymaf a hawsaf i wneud hyn yw arafu cerbydau, gan osod terfynau cyflymdra sy'n briodol i'r amgylchedd.

### 5 Helpu pawb i gyrraedd natur

**Cynyddu mynediad cyfrifol at gefn gwlad i bawb trwy ehangu hawliau mynediad agored cyhoeddus i fwy o dirweddau.** Byddai mwy o fannau, a gwell cysylltiadau rhyngddynt, yn agos i gartrefi pobl yn cyflawni buddion enfawr o ran iechyd cyhoeddus. Dylai hyn gynnwys mwy o fynediad i bobl sy'n seiclo a marchogaeth ar lwybrau a thraciau presennol ar draws tir mynediad agored, lle mae'r cyhoedd eisoes yn cael cerdded, a system fwy syml o newid statws hawliau tramwy cyhoeddus i greu rhwydwaith sy'n addas i'r dyfodol.

### 6 Diweddaru ein cyfreithiau traffig sy'n methu


**Comisiynu adolygiad o gyfreithiau traffig ffyrdd o fewn 12 mis cyntaf y llywodraeth newydd,** gyda'r nod o leihau perygl ar ein ffyrdd, diogelu dioddefwyr, gwneud ein ffyrdd yn fwy diogel, atal troseddau ar y ffyrdd a chyflawni cyfiawnder. Dylai gynnwys mesurau i sicrhau y caiff pobl sy'n peryglu pobl eraill eu tynnu oddi ar y ffyrdd, a bod ein cyfreithiau sy'n ymwneud ag ymddygiad diofal a pheryglus ar ein ffyrdd yn gweithio'n well er mwyn ymdrin ag ymddygiad anghyfrifol ac i annog pobl i ymddwyn yn gyfrifol.

### Datganoli

Mae rhai agweddau ar drafndiaeth, cynllunio a meysydd polisi eraill a gyfeirir atynt yn y manifffesto hwn wedi'u datganoli i lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac felly nid ydynt dan reolaeth uniongyrchol llywodraeth y DU. Mae Cycling UK yn galw ar lywodraeth nesaf y DU i weithredu'r polisiâu yn y manifffesto hwn lle mae ganddi'r pŵer i wneud hynny. Lle bydd y pŵer wedi'i ddatganoli, hoffem weld llywodraeth y DU yn cefnogi ymdrechion y gwledydd datganoledig i gyflawni'r uchod.



# Mae mwy o seiclo er budd i bawb ohonom



## Yn ennill pleidleisiau

Mae prosiectau seilwaith poblogaidd yn hybu cefnogaeth faerol a gwleidyddol




## Yn hybu'r economi

Dengys astudiaethau y ceuwch chi **fuddion gwerth £5.62** am bob **£1 a wariwyd**, un o'r enillion mwyaf ar fuddsoddiad o wario ar drafnidiaeth



## Yn hyrwyddo iechyd cyhoeddus

Caiff seiclo ei gysylltu'n aml â **lleihad o 46%** i'r risg o ddatblygu clefyd y galon



## Yn brwydro yn erbyn newid hinsawdd

Cyda **52% o deithiau sy'n llai na 5 milltir yn cael eu gwneud mewn car**, gall seiclo leihau allyriadau carbon yn sylweddol

## Pwy ydym ni

Ni yw elusen seiclo'r DU.

Yn ystod y 146 o flynyddoedd diwethaf, rydym wedi datblygu'n rym ysgogol yn y gwaith o eirioli dros hawliau pobl sy'n seiclo, gwella seilwaith a meithrin cymuned fywiog o seiclwyr.

Rydym yn ysbrydoli pobl o bob oedran, cefndir a gallu i elwa ar bleserau seiclo. Rydym yn hyrwyddo buddion niferus seiclo at ddibenion hamdden, llesiant a'r amgylchedd.

Rydym yn gweithio i'r rhai sy'n seiclo eisoes, ac i seiclwyr y dyfodol hefyd. Mae cynyddu nifer y bobl sy'n seiclo o fudd i bawb ohonom. Gyda'n gilydd, rydym yn creu cymdeithas iachach, hapusach, gwyreddach a mwy cysylltiedig trwy rym seiclo.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â: [campaigns@cyclinguk.org](mailto:campaigns@cyclinguk.org)

we are  
**cycling**  
UK

[cyclinguk.org](http://cyclinguk.org)